

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Mehefin 2012

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am yr etholiadau cyntaf erioed ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a gynhelir ar 15 Tachwedd 2012.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 11/2029

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr
Heddlu a Throseddu

Mehefin 2012

Alys Thomas

Rhif dogfen: 12/025

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd)	1
3.	Paneli'r Heddlu a Throseddu	3
4.	Amseriad	5
5.	Y system bleidleisio.....	6
6.	Yr Etholwyr.....	6
7.	Yr ymgeiswyr.....	7
7.1.	Y Ceidwadwyr	8
7.2.	Llafur	8
7.3.	Y Democratiaid Rhyddfrydol	9
7.4.	Plaid Cymru	10
7.5.	Ymgeiswyr Posibl	10
7.6.	Ymchwil Sefydliad yr Heddlu.....	12
8.	Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012.....	14

Etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

1. Cyflwyniad

Daeth [*Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011*](#)¹ yn gyfraith ym mis Medi 2011. Mae'n gwneud darpariaethau ar gyfer comisiynwyr etholedig yr heddlu a throseddu yng Nghymru a Lloegr. Cynhelir yr etholiadau cyntaf ar 15 Tachwedd 2012. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac am Baneli'r Heddlu a Throseddu; y trefniadau ar gyfer yr etholiadau ac ymgeiswyr posibl.

2. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd)

Mae gan y Comisiynydd fandad i ddwyn yr heddlu i gyfrif ar ran y cyhoedd. Y Comisiynydd sy'n derbyn **yr holl gyllid**, gan gynnwys grant a phraesept y llywodraeth, sy'n ymwneud â phlisma a gostwng troseddu. Heblaw am nifer fach o grantiau penodol megis grantiau ar gyfer gwaith gwrthderfysgaeth, mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu sut i ddyrannu'r arian hwn, drwy ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, a allai gynnig cyngor proffesiynol ac argymhellion.

Mae gan y Comisiynydd y ddyletswydd a'r grym cyfreithiol, i wneud y canlynol:

- pennu cyfeiriad strategol ac amcanion yr heddlu drwy **Gynllun yr Heddlu a Throseddu** ("y Cynllun"), y bydd yn rhaid iddo roi sylw dyledus i'r Gofyniad Plisma Strategol a bennir gan yr Ysgrifennydd Cartref;
- monitro perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu;
- dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr heddlu;
- penderfynu ar y gyllideb, gan ddyrannu asedau a chyllid i'r Prif Gwnstabl;
- penodi a, lle y bo'n briodol, diswyddo'r Prif Gwnstabl;
- sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardal yr heddlu;
- bod yn gyswllt lleol rhwng yr heddlu a'r cyhoedd, gan weithio i droi dymuniadau a dyheadau dilys y cyhoedd yn gamau gweithredu gan y Prif Gwnstabl er mwyn gostwng troseddu a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif o ran arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a swyddogaethau'r personau sydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl, a pheidio â llesteirio annibyniaeth weithredol yr heddlu a'r Prif Gwnstabl sy'n ei arwain;

¹[*Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 \(pennod 13\)*](#) (Saesneg yn unig)

- cyhoeddi gwybodaeth a bennir gan yr Ysgrifennydd Cartref a gwybodaeth y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn hanfodol er mwyn galluogi'r bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i asesu perfformiad y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl;
- cydymffurfio â phob cais ffurfiol gan **Banel yr Heddlu a Throseddu** i fynd i'w cyfarfodydd;
- paratoi adroddiad blynyddol ar gyflawniadau'r Comisiynydd yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn y Cynllun a chyflwyno'r adroddiad i Banel yr Heddlu a Throseddu;
- bod yn ymwybodol o bob cwyn a wneir yn erbyn uwch swyddogion a staff, gan weithredu ei hun i benderfynu ar y ffordd orau o ymdrin â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl.

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldebau ehangach na'r rhai sy'n ymwneud â'r heddlu yn unig, sef:

- cyfrifoldeb am sicrhau diogelwch yn y gymuned, a'r gallu i ddwyn ynghyd Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar lefel yr heddlu;
- y gallu i roi grantiau gostwng troseddu ac anhrefn yn ardaloedd eu heddluoedd;
- y gallu i greu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr a heddluoedd eraill sydd o fudd i ardal eu heddlu ac sy'n darparu gwell gwerth am arian a gwell gallu plismona;
- cyfrifoldeb am wella'r modd y caiff cyfiawnder troseddol ei weithredu yn ei ardal.²

Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ddogfen [*Police and Crime Commissioners' Association: the Prospectus*](#) gan sefydlu'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer comisiynwyr yr heddlu a throseddu – PaCCA. Mewn perthynas â Chymru, mae'n nodi:

While policing and criminal justice is a reserved matter to the UK Government, responsibility for local government is devolved to the National Assembly for Wales, who also have a key role in relation to community safety. Police and crime commissioners in Wales will therefore operate within a devolved government setting and it will be necessary for them to establish relationships with the Welsh Government and the Welsh Local Government Association (WLGA), among others. The WLGA currently includes the four Welsh Police Authorities as associate members and will wish to discuss with police and crime commissioners in Wales, once appointed, the opportunity to offer them membership of the WLGA.

Partnership working is an important element in how Welsh public services operate, with the opportunity through Local Service Boards and Regional Partnership Boards to

²[*Gorchymyn Protocol Plismona 2011*](#) [fel ar 21 Rhagfyr 2011] (Saesneg yn unig)

identify and pursue shared aims and priorities. Membership of the WLGA for police and crime commissioners in Wales would therefore be logical, bearing in mind the previous relationship with Police Authorities, in ensuring that the new governance structures build a similar relationship with the WLGA. This would offer many benefits including establishing positive relationships with Welsh local authorities and in ensuring that one of the strongest lobbying and influential bodies in Wales could assist in providing 'a strong voice' for the work of police and crime commissioners.³

Mae'r prospectws yn cynnig cymorth cyn etholiadau i ymgeiswyr:

We will provide briefings which will help candidates understand the wider context of their role - for example how police need to work with agencies on many agendas such as children at risk, families with complex needs, community disorder and reducing re-offending. This offer can be generic or party specific, to enable candidates standing on political platforms to meet with other candidates from their party to discuss shared approaches.⁴

3. Paneli'r Heddlu a Throseddau

Roedd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi gwneud datganiad ym mis Hydref 2010 a oedd yn nodi gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i'r cynigion i greu comisiynwyr yr Heddlu. Mae'r Mesur Seneddol yn cynnwys cynigion i sefydlu pwyllgorau o awdurdodau lleol ar y cyd ym mhob un o ardaloedd yr heddlu (sef Panelau Heddlu a Throseddau) er mwyn craffu ar y Comisiynwyr Heddlu. Roedd gan y Cynulliad eisoes y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud deddfau i ddarparu ar gyfer pwyllgorau awdurdodau lleol ar y cyd i gael eu sefydlu at ddibenion penodol, a dyna pam roedd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Felly, er nad oedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, dyna oedd yn ei gyflwyno. Dywedodd y Gweinidog:

This is the final legislative consent motion for today, on the more difficult issue facing us, relating to the proposals for police and crime commissioners. Members will be aware that the Police Reform and Social Responsibility Bill currently before Parliament will abolish police authorities and replace them with directly elected police and crime commissioners. Members will also know that the Welsh Assembly Government is fundamentally opposed to these proposals in principle. I made our position clear in my statement to Members in October last year, and do not intend to repeat our objections in detail today, except to say that it remains our view that the case for change has not been made by the Westminster Government.⁵

³[Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, *Police and Crime Commissioners' Association: the prospectus*, 14 Mai 2012 \[fel ar 30 Mai 2012\]](#)

⁴ Ibid.

⁵ Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2012.

Dywedodd y cynnig:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â Phanelau'r Heddlu a Throseddau yn Rhan 1 o'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd i Dy'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.⁶

Y bleidlais oedd 17 o blaid, 15 yn ymatal, a 23 yn erbyn, gyda'r Cabinet a'r Dirprwy Weinidogion yn ymatal.

Yn dilyn penderfyniad y Cynulliad i wrthod rhoi cydsyniad deddfwriaethol⁷ ar gyfer penodiadau awdurdodau lleol i Baneli'r Heddlu a Throseddu, diwygiodd Llywodraeth y DU y Bil i roi'r grym i'r Ysgrifennydd Cartref, yn hytrach nag awdurdodau lleol, i greu'r Paneli hyn yng Nghymru. Ni chaiff y paneli hyn eu creu o fewn strwythurau llywodraeth lleol. Bydd Panel yr Heddlu a Throseddu yn gorff annibynnol, wedi'i greu a'i gynnal gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Bydd swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau Paneli'r Heddlu a Throseddu yng Nghymru yn union yr un fath â'r Paneli yn Lloegr. Yr unig wahaniaeth fydd y ffordd y cânt eu creu a'u cynnal.

Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn gwahodd awdurdodau lleol ledled ardal yr heddlu i enwebu aelodau ar gyfer Panel yr Heddlu a Throseddu. Os na cheir enwebiadau, bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn dewis pa aelodau o'r awdurdodau lleol y bydd hi'n eu gwahodd i gymryd rhan.⁸

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Pontio ar gyfer Cymru ym mis Chwefror 2012. Clywodd y Bwrdd fod Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant AC, wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol yng Nghymru yn gofyn iddynt ddatblygu proses ar gyfer enwebu cynghorwyr i Baneli'r Heddlu a Throseddu. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cartref at gynghorau yn Lloegr ddiwedd mis Ionawr yn eu gwahodd i gytuno gyda'i gilydd ar aelodaeth y Paneli, awdurdodau lletya a threfniadau'r Paneli. Bydd llythyr tebyg yn cael ei anfon at gynghorau Cymru yn fuan, yn dilyn trafodaethau rhwng y ddwy Lywodraeth.⁹

⁶ Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2012

⁷ [Y Gwasanaeth Ymchwil, Darpariaethau i Gymru ym Mesurau Senedd y DU: y diweddaraf, Papur Ymchwil, 11/047. Gorffennaf 2011 \[fel ar 20 Rhagfyr 2011\]](#)

⁸ [Y Swyddfa Gartref, Police and Crime Panels in Wales, FAQs \[fel ar 15 Mai 2012\]](#)

⁹ [Y Swyddfa Gartref, Bwletin Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru. Rhif 5, Chwefror 2012 \[fel ar 15 Mai 2012\]](#)

4. Amseriad

Yn wreiddiol, roedd y Bil yn nodi y byddai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol ym mis Mai 2012. Fodd bynnag, roedd pryderon gan y Comisiwn Etholiadol o'r cychwyn ynghylch yr amseriad, o ystyried eu bod yn gyfres newydd o etholiadau:

An important factor in the delivery of well-coordinated and well-run polls will be clear legislation. We continue to highlight our firm recommendation following the Scottish Parliament elections in 2007 that the rules relating to any elections must be clear from at least six months in advance. This is so that campaigners, Returning Officers and the Commission are not left with uncertainty about their respective roles and responsibilities and can undertake the necessary planning and preparation.

The proposed PCC elections on 3 May 2012 will be conducted under an entirely new electoral system and on untested boundaries, so adherence to this principle is more important than ever.¹⁰

Yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd, roedd Aelodau Seneddol ac Arglwyddi yn pryderu y byddai cynnal etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar yr un diwrnod ag etholiadau llywodraeth leol yn peri dryswch rhwng y materion.

Cymeradwyodd Tŷ'r Arglwyddi welliant i'r Bil cyn y Cydsyniad Brenhinol er mwyn newid dyddiad yr etholiadau cyntaf ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i fis Tachwedd 2012. Nododd y Comisiwn Etholiadol:

Whilst the need for reform is urgent, and the preparations for elections in May 2012 were on track, the tight timescales for planning and holding elections means a November election will allow proper time for preparations to be made to ensure the elections are properly administered. This additional time will also allow good quality independent candidates to benefit from additional time to plan and campaign for these elections.¹¹

Wedi hynny, cytunodd Llywodraeth y DU y dylid symud yr etholiadau i **15 Tachwedd 2012**.¹² Sylw'r Comisiwn Etholiadol ynghylch y dyddiad newydd oedd:

A November election will coincide with the annual canvass of electors. While there will be a number of options available to each Electoral Registration Officer (ERO) in updating their registers during this period, it is possible that different approaches may be adopted across different areas of the country, possibly resulting in inconsistent practice within a single force area. This could present risks to the accuracy and integrity of registers used for the PCC elections and for the elections in May 2013. The Government should therefore make clear how it intends to ensure consistency of approach in managing this process.

There are almost half as many daylight hours on 15 November compared with early May and there is also the increased likelihood of inclement weather. It is possible (though not proven)

¹⁰Y Comisiwn Etholiadol, *Police Reform and Social Responsibility Bill: House of Lords Second Reading*, Papur Briffio, 27 Ebrill, 2011 [fel ar 20 Rhagfyr 2011]

¹¹ Ibid.

¹² 'Police Authorities slam commissioner election delays', *Public Finance*, 8 Medi 2011 [fel ar 20 Rhagfyr 2011]

that such conditions could discourage some electors from participating in the election and limit campaign activities by candidates. We would therefore be interested to know what the Government's assessment of this issue has been in selecting this date.

Stand alone elections will incur greater costs than elections combined with other elections. The Government should quantify the additional expense and ensure that Returning Officers are adequately resourced to ensure that the elections are well-run.¹³

Caiff Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau eu hethol am dymhorau penodol o bedair blynedd, ond y ddealltwriaeth yw mai tair blynedd a hanner fydd hyd y tymor cyntaf, er mwyn sicrhau bod etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol yn cyd-daro ag etholiadau lleol.¹⁴

Ar ôl yr etholiad cyntaf ym mis Tachwedd 2012, cynhelir yr etholiad nesaf ym mis Mai 2016 a phob pedair blynedd wedi hynny.

5. Y system bleidleisio

Bwriedir defnyddio **system y bleidlais atodol** yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Dyma'r system sy'n cael ei defnyddio i ethol meiri yn Lloegr. O dan system y bleidlais atodol, gofynnir i bleidleisiwr nodi ei ddewis cyntaf a'i ail ddewis, ac os nad oes un ymgeisydd yn cael 50 y cant o'r pleidleisiau dewis cyntaf, bydd y ddau ymgeisydd sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau dewis cyntaf yn mynd ymlaen i ail rownd.

Yn yr ail rownd o gyfrif, caiff y papurau pleidleisio lle y pleidleisiwyd dros rywun a gollodd yn y rownd gyntaf fel dewis cyntaf eu hailddyrranu ar sail yr ail ddewis a nodwyd ar y papur pleidleisio.

6. Yr Etholwyr

Yr un yw'r etholwyr â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau'r Cynulliad, sef pob:

- dinesydd o Brydain sy'n byw yn y DU neu sydd wedi'i gofrestru i bleidleisio fel gwas y goron neu fel aelod o'r lluoedd arfog;
- dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU;

¹³[Y Comisiwn Etholiadol, *Police Reform and Social Responsibility Bill: Lords Consideration of Commons Amendments*, Papur Briffio. 14 Medi, 2011 \[fel ar 20 Rhagfyr 2011\]](#)

¹⁴[Institute for Government, *Who Chose the Sheriff?: finding quality candidates for the police and crime commissioner elections*, Tachwedd 2011 \[fel ar 9 Ionawr 2012\]](#)

- dinesydd o'r Gymanwlad sydd naill ai heb fod angen caniatâd er mwyn byw yn y DU, neu sydd â'r caniatâd angenrheidiol ac sy'n byw yn gyfreithlon yn y DU.

7. Yr ymgeiswyr

Mae rhywun yn gymwys i sefyll fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu:

- os yw'n 18 oed neu'n hŷn;
- os yw'n ddinesydd o Brydain, y Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd;
- os yw wedi'i gofrestru i bleidleisio yn ardal yr heddlu y mae'n dymuno sefyll ynddi.

Ni all rhywun sefyll fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu os yw wedi ei gollfarnu am drosedd garcharadwy. Mae gweision cyhoeddus hefyd yn anghymwys i sefyll, gan gynnwys:

- gweision sifil
- barnwyr
- swyddogion yr heddlu
- aelodau o'r lluoedd arfog arferol
- cyflogeion cynghorau yn ardal yr heddlu
- cyflogeion asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r heddlu
- cyflogeion asiantaethau eraill y llywodraeth
- deiliaid swyddi sy'n rhai gwleidyddol gyfyngedig
- aelodau o staff yr heddlu (gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) neu
- aelodau o awdurdod yr heddlu.

Bydd Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol ac Aelodau o Senedd Ewrop yn gallu sefyll fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ond bydd angen iddynt ymddiswyddo o'u swyddi presennol cyn gallu derbyn y swydd.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi darparu taflen ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn bod yn ymgeiswyr: [Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu: Allwch chi?](#)

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fod yn byw yn yr ardal etholiadol pan gânt eu henwebu ac ar ddiwrnod yr etholiad ei hun. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd yr Institute for Government bapur syniadau ynghylch dewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Nododd:

This residency restriction rules out anyone based in London, which includes many senior figures in all parties. But also, it may prove difficult for the parties to find suitable candidates in areas where they are less strong – such as much of the south for Labour, and much of the north for the Conservatives. This rule may increase the likelihood of independents being given a free or less contested run by the parties. This restriction also means that the parties cannot draw up a single national list of potential candidates in the way that all do for parliamentary elections. Instead there will need to be separate long and short lists created separately for each area.¹⁵

7.1. *Y Ceidwadwyr*

Rhestrodd y Ceidwadwyr y meini prawf yr oeddent yn chwilio amdanynt mewn ymgeiswyr ar gyfer comisiynwyr yr heddlu:

- Ymgeiswyr o safon uchel iawn ar gyfer swyddogaethau proffil uchel a chyhoeddus.
- Bydd rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fod yn arweinwyr.
- Bydd angen i Gomisiynwyr weithio gyda'r heddlu yn ogystal ag asiantaethau lleol eraill ac ymgysylltu â'r cyhoedd a'r cyfryngau.

Dywedodd y blaid y byddai'n taflu'r rhwyd yn eang ac yn sicr yn edrych y tu hwnt i'r rhai sydd wedi gweithio ar awdurdodau'r heddlu yn y gorffennol. Ychwanegodd y gallai Comisiynwyr feddu ar brofiad fel arweinwyr busnes, dod o gefndiroedd milwrol neu blismona, meddu ar brofiad o wleidyddiaeth genedlaethol neu leol, neu ddod o feysydd eraill.¹⁶

7.2. *Llafur*

Rhestrodd y Blaid Lafur ei meini prawf mewn ffordd debyg, gan ddweud y dylai ymgeiswyr:

- Fod yn ymrwymedig i adeiladu ar record Llafur o ostwng troseddu a gweithredu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol;
- Meddu ar y weledigaeth strategol i gefnogi'r Prif Gwnstabl a'i ddwyn i gyfrif er mwyn meithrin hyder pobl yn yr heddlu, gan hyrwyddo diogelwch cymunedol, gostwng troseddu a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, pennu

¹⁵ [Institute for Government, *Who Chose the Sheriff?: finding quality candidates for the police and crime commissioner elections*, Tachwedd 2011 \[fel ar 23 Mawrth 2012\]](#)

¹⁶ [Y Blaid Geidwadol, tudalen we ar Etholiadau Comisynydd yr Heddlu a Throseddu 2012 \[fel ar 28 Mawrth 2012\]](#) (Saesneg yn unig)

blaenoriaethau plismona lleol a chyfrannu at weithredu ar flaenoriaethau cenedlaethol megis troseddu cyfundrefnol ac atal gweithgarwch terfysgol;

- Bod yn bencampwyr ar gyfer y cymunedau y maent yn byw ynddynt;
- Ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau lleol a gweithio i ddiogelu plismona yn y gymdogaeth – un o ddiwygiadau blaenllaw Llafur – sydd o dan fygythiad oherwydd toriadau'r Llywodraeth;
- Bod yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, llywodraeth leol, asiantaethau gwirfoddol a grwpiau cymunedol er mwyn cryfhau diogelwch cymunedol ac atal troseddu;
- Meddu ar y sgiliau i arwain sefydliad dynamig, cymhleth a blaengar sy'n atebol i bobl leol;
- Gallu cynnig arweiniad strategol ar faterion plismona;
- Bod yn ymrwymedig i werthoedd a delfrydau'r Blaid Lafur;
- Cydnabod a pharchu annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl a swyddogion dan lw bob amser.¹⁷

7.3. *Y Democratiaid Rhyddfrydol*

Ym mis Hydref 2011, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Ffederal y Democratiaid Rhyddfrydol na fyddai'r blaid ffederal yn rhoi cefnogaeth ariannol i Democratiaid Rhyddfrydol sy'n dymuno sefyll etholiad fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Yn hytrach, y disgwyliad yw y bydd y blaid yn y pen draw yn cefnogi ymgeiswyr annibynnol, ond nodwyd y gall ardaloedd lleol benderfynu cyflwyno ymgeiswyr os byddant am wneud hynny – ond heb gefnogaeth ariannol gan y blaid ganolog.

Fodd bynnag, byddai'n llawer gwell gan y blaid bod Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi ymgeiswyr annibynnol. Fel y dywedodd Tim Farron AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith Ffederal a Llywydd y Blaid, wrth ysgrifennu at y pleidiau rhanbarthol:

Individual Liberal Democrats may support non party candidates. This is a continuation of the view that Liberal Democrats in government and parliament have been expressing as the legislation has gone through Westminster: that whilst effective accountability of the police is essential, it is imperative that operational policing does not become a political football.¹⁸

¹⁷[Y Blaid Lafur, tudalen we ar Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2012 \[fel ar 28 Mawrth 2012\]](#) (Saesneg yn unig)

¹⁸[Liberal Democrat Voice, Liberal Democrats decide to pass up on fighting police commissioner elections \(mostly\), 27 Hydref 2011 \[fel ar 28 Mawrth 2012\]](#)

7.4. *Plaid Cymru*

Ym mis Ionawr 2012, cyhoeddodd Elfyn Llwyd AS erthygl ar wefan Plaid Cymru, yn mynegi gwrthwynebiad y blaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, ond yn dod i'r casgliad canlynol:

Plaid Cymru have several criteria for what would make a good police commissioner in Wales. They should be people who support Welsh control of the criminal justice system from start to finish, should put the welfare of the wider community first and should be against the politicisation of the police force.

We would welcome making contact with any candidate who meets these criteria and wants to stand for election as police and crime commissioners as an independent, non-partisan candidate.

If four such candidates can be found around Wales, one for each police force area, then Plaid Cymru would support these candidates.

If, however, such candidates did not come forward, then we will put forward our own candidate so that electors would have the opportunity to support the above aims that must be represented on the ballot paper.

We therefore invite members of the public who support our aims on policing to come forward and help ensure effective and improved policing for our communities.¹⁹

7.5. *Ymgeiswyr Posibl*

Mae ymgeiswyr posibl wedi dechrau mynegi diddordeb mewn sefyll fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Mae Sefydliad yr Heddlu yn [monitro'r](#) sefyllfa ledled Cymru a Lloegr, ond amlinellir y sefyllfa yn ardaloedd heddluoedd Cymru, fel y mae ar 19 Mehefin 2012, isod. Cyhoeddodd y Blaid Lafur ei ymgeiswyr ar 18 Mehefin 2012.²⁰

Dyfed-Powys

Mae **Nick Bourne**, cyn-arweinydd Ceidwadwyr Cymru yn ystyried ceisio cael ei enwebu gan y Ceidwadwyr yn ardal Dyfed-Powys.²¹

Cyhoeddodd **John Davies**, arweinydd Annibynnol cyngor sir Penfro, y byddai'n ceisio cael ei ethol, ond nid yw eto wedi penderfynu a fydd yn sefyll fel comisiynydd ar ran plaid wleidyddol, ynteu fel ymgeisydd annibynnol.²²

Mae'r cyn-Aelod Cynulliad Ceidwadol **Rod Richards** hefyd yn ystyried sefyll fel ymgeisydd **Annibynnol**.²³

¹⁹[Elfyn Llwyd MP, Police Commissioners – the way forward, 14 Ionawr 2012, Gwefan Plaid Cymru \[fel ar 23 Mawrth 2012\]](#)

²⁰[BBC Newyddion, Llafur yn cyhoeddu ymgeiswyr Commisiynwyr Heddlu, 19 Mehefin 2012 \[fel ar 19 Mehefin 2012\]](#)

²¹[Western Mail, 'Nick Bourne considers a comeback in police commissioner role', 12 Ionawr 2012 \[fel ar 28 Mawrth 2012\]](#)

²²[Western Telegraph, Former Leader goes for police role, 19 Mai 2012 \[fel ar 30 Mai 2012\]](#)

²³[Western Mail, 'Former Conservative Assembly Leader Rod Richards may oppose Nick Bourne in police commissioner race' 13 Ionawr 2012 \[fel ar 28 Mawrth 2012\]](#)

Gwent

Cyfreithiwr a'r cyn ymgeisydd Seneddol **Hamish Sandison** yw'r ymgeisydd **Llafur**.²⁴

Roedd cyn-Ysgrifennydd Cymru a Phrif Weinidog Cymru **Ron Davies** yn bwriadu sefyll, fel ymgeisydd **Annibynnol**²⁵ fwy na thebyg, ond mae ei sylwadau ar ôl cael ei drechu yn etholiadau'r cyngor yn ddiweddar yn awgrymu ei fod yn ailystyried:

Mr Davies admitted he had considered standing as an Independent for police commissioner this November but said: "In the current mood of the country, that will go to Labour. But I won't be sitting back and doing nothing."²⁶

Mae **Chris Wright**, cyn-swyddog yr heddlu, yn sefyll fel ymgeisydd **Annibynnol** ac mae ganddo [wefan ymgyrchu](#) eisoes.

Mae **Ian Johnston** hefyd yn sefyll fel ymgeisydd **Annibynnol**.

Gogledd Cymru

Cyn-Prif Weithredwr Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, **Tal Michael**, yw'r ymgeisydd **Llafur**.²⁷

Yn sefyll fel ymgeisydd **Annibynnol**, mae [Richard Hibbs](#).²⁸

De Cymru

Cyn-Brif Ysgrifennydd Cymru (cyn i'r swydd gael ei galw yn Brif Weinidog) a gweinidog y Swyddfa Gartref **Alun Michael** yw'r ymgeisydd **Llafur**.²⁹ Bydd angen isetholiad ar gyfer ei sedd, sef De Caerdydd a Phenarth.

Michael Baker yn sefyll fel ymgeisydd **Annibynnol**.

²⁴[Western Mail, 'Gwent Commissioner bid launched by solicitor Hamish Sandison', 3 Chwefror 2012 \[fel ar 28 Mawrth 2012\]](#)

²⁵[Caerphilly Observer, 'Ron Davies confirms interest in police commissioner role', 30 Ionawr 2012 \[fel ar 29 Mawrth 2012\]](#)

²⁶[Wales Online. Election 2012: Ron Davies swept away as Labour brush off Plaid, 4 Mai 2012 \[fel ar 15 Mai 2012\]](#)

²⁷[Newyddion y BBC, Tal Michael am fod yn gomisiynydd heddlu, 13 Ionawr 2012 \[fel ar 29 Mawrth 2012\]](#)

²⁸[Sefydliad yr Heddlu, Police and Crime Commissioners: Who's running? \[fel ar 29 Mawrth 2012\]](#)

²⁹[Newyddion y BBC, Alun Michael eisiau enwebiad swydd comisiynydd yr heddlu, 5 Ionawr 2012 \[fel ar 28 Mawrth 2012\]](#)

7.6. *Ymchwil Sefydliad yr Heddlu*

Mae **Sefydliad yr Heddlu** wedi amcangyfrif y gefnogaeth i bob plaid wleidyddol ymhob ardal heddlu, yn seiliedig ar ganlyniadau Etholiad Cyffredinol 2010 a chan ddefnyddio Astudiaeth Etholiadau Prydain 2010 i roi brasamcan o ail ddewis pleidleiswyr (gan y bydd etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn defnyddio system y bleidlais atodol).³⁰ Yn ogystal, o ystyried y ffaith bod y pleidleisiau wedi newid yn sylweddol ers etholiad 2010, defnyddiwyd data polau piniwn diweddar er mwyn cyfrifo'r newid yn y gefnogaeth i bob plaid a chanlyniadau hynny. O ystyried nad oes disgwyl i'r Democratiaid Rhyddfrydol gynnig ymgeiswyr yn y rhan fwyaf o ardaloedd, cyfrifwyd hefyd pa gefnogaeth a fyddai i'r pleidiau sydd ar ôl pe bai hyn yn digwydd. Yn ôl cyfrifiadau Sefydliad yr Heddlu, mae'r canlyniadau ar gyfer ardaloedd yr heddlu yng Nghymru yn y sefyllfaoedd gwahanol fel a ganlyn:

- Y blaid a fyddai'n cael y gefnogaeth fwyaf ym mhob ardal, ar sail **canlyniadau Etholiad Cyffredinol 2010** a chan ddefnyddio ail ddewis pleidleiswyr i efelychu system y bleidlais atodol: **Llafur i ennill yn y gogledd, y de a Gwent. Y Democratiaid Rhyddfrydol i ennill yn Nyfed-Powys.**
- Y blaid a fyddai'n cael y gefnogaeth fwyaf ym mhob ardal, yn seiliedig ar **ganlyniadau Etholiad Cyffredinol 2010** a chan ddefnyddio ail ddewis pleidleiswyr i efelychu system y bleidlais atodol, **ond heb gynnwys y Democratiaid Rhyddfrydol: Llafur yn ennill ym mhob un o bedair ardal yr heddlu.**
- Y blaid a fyddai'n cael y gefnogaeth fwyaf ymhob ardal, **yn seiliedig ar bolau piniwn diweddar** a chan ddefnyddio ail ddewis pleidleiswyr i efelychu system y bleidlais atodol. **Llafur yn ennill ym mhob un o bedair ardal yr heddlu.**
- Y blaid a fyddai'n cael y gefnogaeth fwyaf ym mhob ardal, **yn seiliedig ar bolau piniwn diweddar** a chan ddefnyddio ail ddewis pleidleiswyr i efelychu system y bleidlais atodol ond **heb gynnwys y Democratiaid Rhyddfrydol.** Nid oedd modd i'r ymchwilwyr gyfrifo pwy fyddai'n cael y gefnogaeth fwyaf yn y pedair etholaeth yng Nghymru yn y sefyllfa hon, gan nad yw'r data angenrheidiol ar gael.

Mae ymchwilwyr Sefydliad yr Heddlu yn cydnabod bod llawer o amodau'n gysylltiedig â'r dadansoddiad hwn, sef:

- nid yw'n ystyried unrhyw effaith y gallai ymgeiswyr annibynnol ei chael ar yr etholiad;

³⁰[Sefydliad yr Heddlu, Police and Crime Commissioners: Political Support, Mawrth 2012 \[fel ar 2 Ebrill 2012\]](#)

- nid yw'n ystyried mai etholiadau ar un mater yw'r rhain ar gyfer arweinydd lleol, yn hytrach nag etholiad cyffredinol, a gallai hynny effeithio ar y ganran a fydd yn pleidleisio a pheri i'r etholwyr bleidleisio'n wahanol mewn etholiad sy'n rhoi pwyslais ar faterion lleol;
- mae'n cymryd yn ganiataol, wrth gyfrif y gogwydd er 2010, y bydd y newid yr un fath ledled Cymru a Lloegr ac na fydd yr ail ddewis wedi newid yn y cyfamser;
- yn olaf, mae'r dadansoddiad yn tybio y bydd pob plaid a safodd yn Etholiad Cyffredinol 2010 yn sefyll ymhob un o etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, heblaw lle y maent wedi tyngu'r Democratiaid Rhyddfrydol o'r ras yn benodol.

Yng nghyd-destun Cymru, mae tystiolaeth cryf bod patrymau pleidleisio yn newid mewn etholiadau lleol a bod pobl yn fwy tebygol o bleidleisio dros ymgeiswyr annibynnol - yn wir, yn 2008, ymgeiswyr annibynnol a gafodd y gyfran fwyaf o bleidleisiau, sef 28 y cant, ac roedd etholiadau lleol 2008 yn nodedig o wael i'r Blaid Lafur.³¹ Yn 2012, gwelwyd pleidlais y Blaid Lafur yn adfer yn sylweddol unwaith eto, ond cynghorwyr annibynnol sy'n ail o hyd o ran niferoedd.³² Mae patrymau pleidleisio yn amrywio yn etholiadau'r Cynulliad hefyd gyda phleidlais Plaid Cymru yn uwch na'i pherfformiad yn etholiadau cyffredinol y DU. Yr hyn na wyddom yw sut y bydd etholwyr Cymru yn gweld yr etholiadau hyn: a fyddant yn eu gweld fel etholiadau lleol o ryw fath ac felly yn fwy parod i bleidleisio dros ymgeiswyr annibynnol, ynteu a fyddant yn ffafrio'r pleidiau? A pha effaith a gaiff penderfyniad y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru i beidio â chyflwyno ymgeiswyr?

Ffactor arall na wyddom lawer amdano yw'r posibilrwydd mai canran fach a fydd yn pleidleisio. Canfu arolwg a gynhaliwyd ddechrau mis Mai 2012 nad oedd 57 y cant o'r ymatebwyr yn gwybod dim am yr etholiadau a bod 24 y cant arall o'r ymatebwyr wedi clywed am yr etholiadau ond nad oeddent yn gwybod llawer amdanynt. Dywedodd 71 y cant o'r menywod a holwyd nad oeddent wedi clywed dim am yr etholiadau arfaethedig. Mae ymddieithrio ar y raddfa hon yn codi pryderon mai canran fach fydd yn pleidleisio.³³

³¹[Y Gwasanaeth Ymchwil, Local Election Results 2008 \(updated\), Papur Ymchwil 08/039, Mehefin 2008 \[fel ar 2 Ebrill 2012\]](#)

³²[Wales Online, Data – Canlyniadua Etholaidau Lleol 2012 \[fel ar 15 Mai 2012\]](#) (Saesneg yn unig)

³³[Guardian, Police commissioner elections leave voters baffled and indifferent, says poll, 15 Mai 2012 \[fel ar 15 Mai 2012\]](#)

8. Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2012

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod [Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau](#)³⁴ gerbron y Senedd i'w gymeradwyo. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys rheolau ar gyfer yr etholiadau cyntaf. Mae'r rheolau yn cwmpasu sefyll ar gyfer yr etholiad, y terfynau gwario ar gyfer ymgeiswyr ac ymgyrchwyr eraill yn yr etholiad, pa roddion y gall ymgeiswyr eu derbyn, pa roddion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt, a sut y caiff yr etholiad ei gynnal.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cynhyrchu [canllawiau](#)³⁵ ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau, a sefydliadau eraill y bydd y rheolau hyn yn effeithio arnynt. Mae'r Canllawiau yn cwmpasu:

- pwy all sefyll etholiad a'r broses enwebu;
- penodi asiantau etholiadol;
- rheolau ymgyrchu;
- beth i'w ddisgwyl a beth i'w wneud yn ystod prif drafodion yr etholiad gan gynnwys sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif;
- y terfynau ar wariant ymgyrchu pob ymgeisydd rhwng 8 Hydref 2012 a'r diwrnod pleidleisio ymhob ardal heddlu. Bydd gan bob ardal heddlu derfyn gwario yn hytrach na fformiwla;
- pa roddion y gall ymgeiswyr eu derbyn a pha roddion y mae'n rhaid iddynt roi gwybod amdanynt. Er enghraifft, dim ond gan rai mathau o roddwyr y bydd ymgeiswyr yn gallu derbyn rhoddion o fwy na £50, megis unigolion ar gofrestr etholiadol. Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i bob rhodd sy'n ariannu gwaith ymgyrchu o 8 Hydref 2012 ymlaen;
- efallai y bydd angen i ddarpar ymgeiswyr roi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am unrhyw roddion eraill a roddir i'w hymgyrch cyn 8 Hydref os ydynt hefyd yn aelod o blaid wleidyddol, neu'n gynghorydd etholedig, yn faer etholedig, yn Aelod o un o Seneddau neu Gynullliadau'r Deyrnas Unedig, neu'n Aelod o Senedd Ewrop;
- sut i gofnodi a rhoi gwybod am y rhoddion hyn ar ôl yr etholiad yn ffurflen dreuliau'r ymgeiswyr. Caiff ffurflenni pob ymgeisydd eu rhyddhau i'r cyhoedd ar ôl yr etholiad a byddant ar gael i'w harchwilio.
- Y terfynau gwario gan bobl a sefydliadau eraill sy'n ymgyrchu dros ymgeiswyr penodol neu yn eu herbyn rhwng 8 Hydref 2012 a'r diwrnod pleidleisio.

Pwyntiau allweddol yn y Gorchymyn Drafft:

³⁴ [Gorchymyn Drafft Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2012 \[fel ar 21 Mai 2012\]](#) (Saesneg yn unig)

³⁵ [Y Comisiwn Etholiadol, Sefyll mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Mehefin 2012 \[fel ar 19 Mehefin 2012\]](#)

- Rhaid i **ddau etholwr** lofnodi'r papur enwebu fel **cynigydd** ac **eilydd**, ac mae angen llofnod 98 o etholwyr eraill i nodi eu bod yn cydsynio i'r enwebiad;
- Rhaid i ymgeiswyr dalu **blaendal o £5,000**. Os na fydd yr ymgeisydd yn cael 5 y cant o'r bleidlais, bydd yn colli'r blaendal;
- Pennir y terfynau ar dreuliau ymgeiswyr fesul ardal heddlu.
- Mae modd ysgrifennu anerchiadau etholiadol swyddogol 300 o eiriau, a byddant yn cael eu postio ar **wefan genedlaethol ganolog**.
- Bydd modd i ymgeiswyr gadw eu cyfeiriadau cartref yn gyfrinachol; bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr sy'n dewis gwneud hynny ddatgan eu bod yn byw yn ardal berthnasol yr heddlu.
- Ni all aelod o heddlu ar gyfer unrhyw ardal heddlu geisio perswadio unrhyw un ar lafar, drwy neges, yn ysgrifenedig nac mewn unrhyw ffordd arall i roi pleidlais, neu i beidio â rhoi pleidlais, naill ai fel etholwr neu fel dirprwy mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Y terfynau ar wariant ymgyrchu ymgeiswyr rhwng 8 Hydref 2012 a'r diwrnod pleidleisio ym mhob ardal heddlu yng Nghymru, fel y'u nodwyd yn y Gorchymyn drafft, yw:

Ardal Heddlu	Uchafswm Gwario £
Dyfed-Powys	72,622
Gwent	78,422
Gogledd Cymru	95,241
De Cymru	174,179

Mae terfynau hefyd ar wariant gan bobl a sefydliadau eraill sy'n ymgyrchu dros ymgeiswyr penodol neu yn eu herbyn rhwng mis Hydref 2012 a'r diwrnod pleidleisio. Ar gyfer ardaloedd yr heddlu yng Nghymru, y terfynau hyn fel y nodwyd yn y Gorchymyn drafft yw:

Ardal Heddlu	Uchafswm Gwario £
Dyfed-Powys	2,035
Gwent	2,199
Gogledd Cymru	2,674
De Cymru	4,904

Nid oes terfyn gwario ar ymgyrchu cenedlaethol gan bleidiau gwleidyddol, na chan ymgyrchwyr o'r tu allan i bleidiau sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu grŵp o ymgeiswyr yn yr etholiadau hyn.³⁶

Mae amserlen ar gyfer yr etholiadau isod:

Dyddiad	Digwyddiad
8 Hydref 2012	Y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad am yr etholiad
8 Hydref 2012	Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio i gofrestru plaid newydd i gystadlu mewn etholiad
12 y prynhawn ar 19 Hydref 2012	Cau'r enwebiadau
6/7 Rhagfyr 2012*	Y diwrnod olaf ar gyfer derbyn anfonebau am wariant mewn etholiadau
13/14 Rhagfyr 2012*	Y diwrnod olaf ar gyfer alu anfonebau am wariant mewn etholiadau
24/25 Ionawr 2013*	Y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno cofnod am wariant mewn etholiad
7 diwrnod gwaith o'r diwrnod y cyflwynir cofnod gwariant yr ymgeisydd	Y diwrnod olaf ar gyfer derbyn datganiad yr ymgeisydd
22 Tachwedd 2012	PCCs yn dechrau waith

Ffynhonnell: Comisiwn Etholiadol

*yn dibynnu a yw canlyniad yr etholiad wedi'i gyhoeddi cyn hanner nos ar Tachwedd 15 neu ar Tachwedd 16.

³⁶[Y Comisiwn Etholiadol, tudalennau gwe Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau \[fel ar 21 Mai 2012\]](#) (Saesneg yn unig)